# Atodlen 3

## Gwybodaeth Fonitro Ychwanegol y mae angen ei chyflwyno i'r Awdurdod

1. Bydd y Derbynnydd yn cyflwyno:

- y cyfrifon archwiliedig blynyddol sy'n ofynnol yn ôl Cymal 4.3(iii), manylion unrhyw asedau cyfalaf a gafwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy ddefnyddio'r Cyllid Grant a gafwyd gan yr Awdurdod; a
- chopi o'i gofnod o reolaeth a gweithdrefnau ariannol ynghyd ag adroddiadau cryno,
- ynghyd â'r wybodaeth ganlynol, os bydd yr Awdurdod yn gofyn amdanynt:
- copïau o bolisïau yswiriant y Derbynnydd sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau'r Grant sy'n ofynnol yn ôl Cymal 10;
- copïau o holl bapurau a chofnodion cyfarfodydd pwyllgor rheoli, ymddiriedolwyr, bwrdd, grŵp llywio'r Derbynnydd neu gorff tebyg, os bydd y papurau a'r cofnodion hynny'n ymwneud â Rhwymedigaethau'r Grant;
- pob adroddiad interim y byddai'n rhesymol i'r Awdurdod ofyn amdanynt, yn ogystal â chopïau o unrhyw bapurau, taflenni, cylchlythyrau neu erthyglau a gyhoeddwyd am waith y sefydliad; ac
- unrhyw wybodaeth arall y byddai'n rhesymol i'r Awdurdod ofyn amdanynt er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol ei hun neu eraill.

Bydd gwerth a diben y Grant hwn hefyd yn cael ei nodi ar wahân yn Adroddiad Blynyddol y Derbynnydd.

Dylid anfon y gyllideb, y cyfrifon archwiliedig a chyhoeddiadau at:

**Enw:** , Grant Manager, Justice Reform Directorate

**Cyfeiriad:**

Ministry of Justice,
102 Petty France,
Llundain,
SW1H 9AJ